



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Grŵp Gynggori AoHNE Gŵyr

Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Nos Lun, 26 Chwefror 2024 am 6.30pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Y Cynghorwyr

P R Hood-Williams
N L Matthews

L James

S E Keeton

Aelodau'r Grŵp Llywio

Judith Doyle

Alan Kearsley-Evans

Barbara Parry

Howard Evans

Peter Lanfear

Clive Scott

Stephen Heard

Hamish Osborn

Paul Tucker

Swyddog(ion)

Jake Cosgrove

Evelyn Gruchala

Ursula Jones

Paul Meller

Jeremy Parkhouse

Mike Scott

Swyddog y Prosiect Cymunedau a Natur

Cydlynnydd Gwirfoddol yr Amgylchedd Naturiol

Swyddog y Prosiect Cymunedau a Natur

Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddog AoHNE Gŵyr

Hefyd yn bresennol

Jill Burgess (Sylwedydd) Cymdeithas Gŵyr

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): A H Stevens

Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): Carrie Townsend Jones

18 Datganiadau o fuddiannau.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

19 Cymeradwyo a llofnodi, fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfod(ydd) blaenorol.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi Cofnodion Cyfarfod Grŵp Gynggori AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 25 Medi 2023 a 29 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

20 Adroddiadau a Diweddariadau am Brosiectau.

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad diweddarau 'er gwybodaeth' ar y cynnydd a wnaed gan Dîm AoHNE Gŵyr ers y cyfarfod diwethaf, ar y meysydd canlynol: -

- Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr.
- Cyfryngau Cymdeithasol.
- Prosiectau Gwrychoedd.
- Statws Cymunedol Awyr Dywyll Gŵyr.
- Awyr Dywyll - prosiectau ôl-osod.
- Twyni Porth Einon.
- Eglwys y Santes Fair, Llan-y-tair-mair (Knelston).
- Capel Backingstone.
- Problemau parcio.
- Castell Pennard.
- Rhaglen Adfer Natur Gŵyr.
- Mannau Addoli Gŵyr.
- Parc Gwledig Dyffryn Clun
- Arian grant.

21 Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Crynodeb Ariannol.

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad ariannol cryno Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) 'er gwybodaeth'.

Amlinellwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllideb y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £100,000 ar gyfer 2023/24. Hyd yn hyn, roedd cyllid wedi'i neilltuo i 20 o brosiectau, gyda chais arall ar y gweill ar hyn o bryd. Roedd un prosiect wedi adrodd nad oedd yn gallu parhau, a bod y cyllid wedi cael ei ddychwelyd, ac roedd dau arall wedi tynnu'n ôl yn ystod y cam cyflwyno cais.

Roedd ffigur y Cronfeydd Neilltuedig yn cynnwys ffi reoli DASA sef £10,000.

Cyfanswm yr arian sydd ar gael	£100,000
Cronfeydd Neilltuedig	£96,282
Cronfeydd heb eu Neilltuo	£3,718
Ceisiadau ar waith	£2,000

Ychwanegwyd bod cyfarfod nesaf Panel Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi'i drefnu ar gyfer 15 Mawrth 2024.

Roedd cyllideb y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £100,000 ar gyfer 2024/25 wedi'i chadarnhau gan Lywodraeth Cymru, ac roedd rhan helaeth ohoni eisoes wedi'i neilltuo, gyda £3,000 heb ei neilltuo ar hyn o bryd.

22 Bwyd a Chymunedau.

Darparodd Josh Pike, Summit Good, gyflwyniad manwl ac addysgiadol am Summit Good, sef Menter Gymdeithasol yn Abertawe a sefydlwyd fel Cwmni Buddiannau Cymunedol. Esboniwyd bod y fenter yn cynnwys grŵp o ffrindiau a oedd yn ceisio gweithredu er gwell. Darparwyd y manylion canlynol:-

- Mae cyfleusterau ar gael ar safle Killan Road, gan gynnwys y Men's/Women's Shed.
- Dulliau a ddefnyddir ar gyfer tyfu, a'r eitemau sy'n cael eu tyfu ar y safle.
- Y cynllun Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned sy'n cael ei redeg ar y safle a sut y mae'n cael ei drefnu.
- Y grwpiau / unigolion / plant sy'n defnyddio'r cyfleusterau.
- Prynu a defnyddio tir ychwanegol ger y safle.
- Sicrhau nad oedd y prosiectau'n canolbwyntio ar wneud elw a'u bod felly'n ymwneud â garddwriaeth a'r gymuned leol.

Gofynnodd y Grŵp Cyngori nifer o gwestiynau, yr ymatebwyd iddynt gan y cynrychiolydd Summit Good, a diolchodd y Cadeirydd iddo am ddarparu'r gyflwyniad.

23 Cynigion Ailfrandio'r AoHNE.

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn ceisio barn y Grŵp Cyngori mewn perthynas â Chynigion Ailfrandio'r AoHNE.

Amlinellwyd bod y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol (y Gymdeithas AoHNEau Cenedlaethol gynt) yn Lloegr wedi bod yn gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) i ddatblygu cynigion i atgyfnerthu'r ymrwymiad i amddiffyn Ardaloedd o Dreftadaeth Naturiol Eithriadol - eu treftadaeth naturiol a diwylliannol, ac i lansio targedau uchelgeisiol sy'n mynd i'r afael â nodau'r teulu AoHNE. Y bwriad oedd codi proffil y tirweddau hyn er mwyn eu hamddiffyn ar gyfer y dyfodol, ac i sicrhau y gall pawb eu mwynhau. Mae'r cynigion, sydd eisoes wedi cael eu mabwysiadu yn Lloegr, yn cynnwys:-

- Adnabod yr AoHNEau fel Tirweddau Cenedlaethol.
- Ailymrwymo i amddiffyn y tirweddau gwerthfawr hyn - eu treftadaeth naturiol a diwylliannol.
- Sicrhau y gall pawb fwynhau'r tirweddau hyn.

Ychwanegwyd bod yr AoHNEau yng Nghymru wedi cael y cyfle i fabwysiadu'r cynigion cyn y cynhelir digwyddiad dathliadol yn y Senedd ym mis Ebrill, a fyddai'n nodi pen-blwydd y ddeddfwriaeth carreg filltir yn 75oed, sy'n nodi sefydliad yr AoHNEau - Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Amlinellwyd ymhellach, oherwydd y gwaith a wnaed gan National Landscapes yn Lloegr, y byddai'r costau o fabwysiadu'r newidiadau yn isel - roedd logo drafft yn gynwysedig yn y gwaith dylunio a ariannwyd gan DEFRA, pe bai'r cynigion yn cael eu mabwysiadu. Er bod y cynigion yn canolbwyntio ar AoHNEau yn Lloegr yn

wreiddiol, byddai eu mabwysiadu nhw yng Nghymru yn arwain at y buddion canlynol ar gyfer y 4 AoHNE yng Nghymru: -

- Helpu i wellau'n proffil cyhoeddus.
- Pwysleisio'r rhan maent yn ei chwarae mewn teulu cenedlaethol o dirweddau a warchodir, wrth gadw eu hunaniaethau unigol.
- Pwysleisio'u pwysigrwydd wrth ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd.
- Helpu i feithrin perthnasoedd cryf a chynhwysol.

Mae'r cynigion yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol Llywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe, gan sicrhau bod AoHNE Gŵyr yn aros yn berthnasol ac yn ganolog i gamau gweithredu ar argyfyngau natur a hinsawdd yn y dyfodol, yn ogystal ag anghenion ein tirweddau a'n cymunedau. Cefnogwyd y cynigion ailfrandio gan ganllawiau brand, sy'n nodi hunaniaeth gweledol a thôn llais, gan sicrhau bod yr holl Dirweddau Cenedlaethol yn cael eu cydnabod fel rhan o deulu cenedlaethol cryf, sy'n rhannu'r un gwerthoedd.

Briffiwyd AoHNE Gŵyr ar y cynigion gan John Watkins (Prif Weithredwr NLA) ar 29 Ionawr 2024, gyda thrafodaeth yn dilyn y cyflwyniad. Gofynnwyd i aelodau'r Grŵp Cynghori gyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r cynigion, a darparwyd y rhain yn Atodiad A.

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn ceisio barn y Grŵp Cynghori mewn perthynas â Chynigion Ailfrandio'r AoHNE.

Amlinellwyd bod y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol (y Gymdeithas AoHNEau Cenedlaethol gynt) yn Lloegr wedi bod yn gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) i ddatblygu cynigion i atgyfnerthu'r ymrwymiad i amddiffyn Ardaloedd o Dreftadaeth Naturiol Eithriadol - eu treftadaeth naturiol a diwylliannol, ac i lansio targedau uchelgeisiol sy'n mynd i'r afael â nodau'r teulu AoHNE. Y bwriad oedd codi proffil y tirweddau hyn er mwyn eu hamddiffyn ar gyfer y dyfodol, ac i sicrhau y gall pawb eu mwynhau. Mae'r cynigion, sydd eisoes wedi cael eu mabwysiadu yn Lloegr, yn cynnwys: -

- Adnabod yr AoHNEau fel Tirweddau Cenedlaethol.
- Ailymrwymo i amddiffyn y tirweddau gwerthfawr hyn - eu treftadaeth naturiol a diwylliannol.
- Sicrhau y gall pawb fwynhau'r tirweddau hyn.

Ychwanegwyd bod yr AoHNEau yng Nghymru wedi cael y cyfle i fabwysiadu'r cynigion cyn y cynhelir digwyddiad dathliadol yn y Senedd ym mis Ebrill, a fyddai'n nodi pen-blwydd y ddeddfwriaeth carreg filltir yn 75oed, sy'n nodi sefydliad yr AoHNEau - Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Amlinellwyd ymhellach, oherwydd y gwaith a wnaed gan National Landscapes yn Lloegr, y byddai'r costau o fabwysiadu'r newidiadau yn isel - roedd logo drafft yn gynwysedig yn y gwaith dylunio a ariannwyd gan DEFRA, pe bai'r cynigion yn cael eu mabwysiadu. Er bod y cynigion yn canolbwyntio ar AoHNEau yn Lloegr yn wreiddiol, byddai eu mabwysiadu nhw yng Nghymru yn arwain at y buddion canlynol ar gyfer y 4 AoHNE yng Nghymru: -

- Helpu i wellau'n proffil cyhoeddus.
- Pwysleisio'r rhan maent yn ei chwarae mewn teulu cenedlaethol o dirweddau a warchodir, wrth gadw eu hunaniaethau unigol.
- Pwysleisio'u pwysigrwydd wrth ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd.
- Helpu i feithrin perthnasoedd cryf a chynhwysol.

Mae'r cynigion yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol Llywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe, gan sicrhau bod AoHNE Gŵyr yn aros yn berthnasol ac yn ganolog i gamau gweithredu ar argyfyngau natur a hinsawdd yn y dyfodol, yn ogystal ag anghenion ein tirweddau a'n cymunedau. Cefnogwyd y cynigion ailfrandio gan ganllawiau brand, sy'n nodi hunaniaeth gweledol a thôn llais, gan sicrhau bod yr holl Dirweddau Cenedlaethol yn cael eu cydnabod fel rhan o deulu cenedlaethol cryf, sy'n rhannu'r un gwerthoedd.

Briffiwyd AoHNE Gŵyr ar y cynigion gan John Watkins (Prif Weithredwr NLA) ar 29 Ionawr 2024, gyda thrafodaeth yn dilyn y cyflwyniad.

Gofynnwyd i aelodau'r Grŵp Cynghori gyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r cynigion, a darparwyd y rhain yn Atodiad A.

Cafwyd trafodaeth faith ar gynnwys y adrodd, yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer yr AoHNE, cydweithio, dewisiadau Llywodraeth Cymru, goblygiadau peidio â dod yn Dirwedd Genedlaethol i'r AoHNE a manteision dod yn Dirwedd Genedlaethol.

Penderfynwyd y bydd Grŵp Cynghori AoHNE Gŵyr yn argymhell bod y Cynigion Ailfrandio AoHNE yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

24 Digwyddiad dathliadol - Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Adroddodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, 'er gwybodaeth' fod y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol yn cynnal digwyddiad dathliadol yn y Senedd ar 24 Ebrill 2024, wedi'i gyflwyno gan Julie James AS, Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd.

Byddai hyn yn nodi pen-blwydd y Ddeddf Mynediad i Gefn Gwlad, a oedd wedi sefydlu'r Parciau Cenedlaethol a'r AoHNEau, yn 70 oed. Gwahoddwyd AoHNE Gŵyr i fod yn bresennol, ac i gynnwys partneriaid y prosiect er mwyn arddangos yr effaith rydym yn ei chael ar ein tirweddau a'n cymunedau, fel rhan o'r dathliadau.

25 TAaCh ac Argyfyngau Natur a'r Hinsawdd.

Cyfeiriodd Mike Scott, AoHNE Gŵyr, at yr hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad ac Argyfyngau Natur a Hinsawdd diweddar a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd bod doler ar gyfer recordiadau o'r hyfforddiant wedi cael ei dosbarthu a'i bod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ychwanegodd fod y Grŵp Cynghori wedi gofyn am drafodaethau pellach ar y ddau bwnc.

Penderfynwyd trefnu sesiwn gweithdy wyneb yn wyneb yn unig i drafod y ddau bwnc.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25pm

Cadeirydd